



*Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 7pm ar 3 Awst 2020 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cymru 2020).*

Presennol: Cadeirydd: Cyng Ken Symmons: Cyng Mrs A Edwards, Mrs N Redmond, Mrs L Holder, I Davies, H Davies

CS Clive Davies

Clerc

Aelodau'r cyhoedd a'r wasg: 0

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng S Kings.

**2. Datgan Diddordeb ar Faterion yn codi o'r Agenda**

Dim.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau a gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.

Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau Cofnodion 29/06/20**

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng. Mrs N Redmond a chytunwyd.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

A200526, Tŷ Coedmor, Llangedmor, Aberteifi, Newidiadau ac Estyniad.

Roedd y Cyngor Cymdeithas yn cefnogi'r cais.

Mae'r dogfennau cynllunio yw cael yn: <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/>

**6. Adroddiad y Cyngorydd Sirol**

Dywedodd y CS fod pont Llechryd wedi ailagor er y byddai angen gwaith pellach. Roedd torri cloddiau wedi parhau o gwmpas y sir er na wyddai pryd y byddai'r gwaith yn digwydd yn lleol. Roedd yn dal i bwyso am lwybr cerdded/beicio ar hyd dyffryn Teifi a gobeithiai y byddai'r Cyngor Cymdeithas yn dangos ei gefnogaeth. Dywedodd ei fod wedi mynegi pryder am lefel y gwasanaeth a gynigid gan y ganolfan feddygol newydd yn Aberteifi yn ystod y cyfnod COVID.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

### 7.1.1 Cyfrifon wedi'u talu yn ôl y contract

	Talai	Am	banc
23.06.20	LAS	DU	42.00
13.7.20	HARC		76.80
	S E Davies	Cyflog	306.89
	S E Davies	Swyddfa yn y Cartref 25/post 17.24	42.24
	J Jamison	Archwiliad Mewnol	75.00
	E Rees	Sbwriel	30.00
	SSE	Trydan yn y bloc toiledau	57.39
Talwyd	Dŵr Cymru	Dŵr i'r bloc toiledau	178.73
	J Morris	Cynnal a chadw'r tir	864.00
Talwyd yr uchod yn ôl y contract			
<b>7.1.2 Taladwyd August 2020</b>			
	LAS	DU	TBC
3.08.20	HARC		76.60
	S E Davies	Cyflog	307.09
	S E Davies	Swyddfa yn y Cartref 25 Archwiliad Blynyddol o'r Lle	25.00
	RoSPA Playsafety Limited	Chwarae	278.40
	E Rees	Sbwriel	30.00
	Cruse Bereavement Care Ltd, Ardal Gorllewin Cymru	Grant	100.00

Cytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r taliadau fel y cawsant eu cyflwyno.

### 7.2 Talu Grantiau

Cytunwyd i gynnig £100 i CRUSE  
Gweithredu: Cysylltu â CRUSE GAN: Y Clerc  
Ni chynigiwyd grantiau i TARIAN Cymru nac i Marie Curie

### 7.3 Oriau'r Clerc – Pandemig – Cyng Mrs A Edwards

Cytunwyd i roi 10 awr o oramser i'r Clerc am y cyfnod Mawrth i Orffennaf

### 7.4 Cyfarfod Blynyddol – Cyng Mrs A Edwards

Esboniodd y Clerc, yn ôl deddfwriaeth dros dro COVID-19, mai'r Clerc oedd i awgrymu dyddiad ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Cyngor. Ar ôl trafodaeth cytunwyd y dylai'r Clerc osod y dyddiad ar 7.9.2020.  
GWEITHREDU: Trefnu Cyfarfod Blynyddol GAN: Y Clerc

### 7.5 Bancio ar-lein

Cytunwyd yn unfrydol y dylai'r Cyngor wneud cais am gael bancio ar-lein.  
GWEITHREDU: Cysylltu â'r banc GAN: Y Clerc

### **7.6 Blwch Cloi**

Nodwyd bod y blwch cloi sy'n cynnwys gwybodaeth gyflogi gyfrinachol wedi ei roi i'r Cadeirydd. Byddai'r blwch yn cael ei roi i bob Cadeirydd i'w gadw'n ddiogel.

### **7.7 Cofrestrfa tir**

Byddai'r Clerc yn mynd i holi am ymateb oddi wrth gyfreithwyr lleol.

## **8. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

### **8.1 Croes-y-Llan**

Roedd y gwaith gwastraff laeth nawr wedi dod i ben, felly dylai problemau gyda'r tanceri gael eu datrys. Roedd y Cyngor yn anhapus â'r ymateb gan CSC fod lefel y traffig trwm a oedd yn cael ei greu gan y gwaith yn ddim mwy nag a ddisgwyliid mewn ardal amaethyddol. Nid oedd ymateb wedi dod am y niwed i'r ffordd ac ymylon y ffordd. GWEITHREDU: Cysylltu â CSC i fynegi anfodlonrwydd GAN: Y Clerc.

Roedd un o'r trigolion lleol yn dal yn bryderus am y cyflymdra wrth y groesffordd er i'r arwydd gael ei newid yn ddiweddar.

### **8.2 Llwybrau Troed / Ffordd y Aberteifi**

Nodwyd bod y Cyng S Kings yn dal i weithio ar ddogfen ddrafft ar gyfer trafodaeth.

### **8.3 Pont Llechryd**

Cafwyd diweddariad gan y CS Clive Davies

## **9. Amwynderau**

### **9.1 Ailagor y Bloc Toiledau**

Roedd y Clerc wedi darparu drafft o asesiad risg. Ar ôl trafodaeth cytunwyd i holi am ddyfynbrisiau am lanhau ar 3 diwrnod yr wythnos yn unig. Byddai arwyddion yn dangos hynny. Byddai'ch ochrau'n cael eu cyfyngu i ddwy uned yn unig gyda basnau golchi a sychwyr dwylo. Byddai arwyddion yn cael eu darparu i annog cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo, ac ati

GWEITHREDU: Holi am ddyfynbrisiau GAN: Y Clerc

### **9.2 Man Chwarae – I'w gadarnhau mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolwr**

9.2.1 Gwaith yn yr eiddo sy'n ffinio â'r man chwarae

Yn dilyn cyfarfod safle gyda Tai Ceredigion, cytunwyd i beidio â mynd ar drywydd adnewyddu'r cloddiau.

Roedd Tai Ceredigion wedi cydnabod y bydd, yn y dyfodol, yn trafod gwaith gyda'r Ymddiriedolwr (y Cyngor) cyn i gontractwyr fynd ar y safle..

Cytunwyd i edrych ar ddyfynbrisiau ar gyfer ffensio'r ffin ag eiddo wrth ymyl y man chwarae.

GWEITHREDU: Edrych ar fanylion ffensio GAN: Y Clerc

9.2.2 Ailagor y man chwarae

Cytunwyd, yn amodol ar yr asesiad risg a ddarparwyd ac arwyddion priodol, y byddai'r man chwarae'n cael ei ailagor.

GWEITHREDU: Arwyddion wedi eu dirprwyo i'r Clerc drwy ymgynghori a dau o'r Cynghorwyr.

Roedd yr archwiliad blynyddol wedi digwydd. Roedd angen ychydig waith ar y ffensio. Roedd y ffrâm dringo pren yn dod i ddiwedd ei oes.

GWEITHREDU: Chwilio am gynlluniau ar gyfer cyfarpar newydd.

Byddai seddi siglo i blant bach yn cael eu harchebu os byddent yn costio llai na £100 am y pâr.

Roedd angen rhoi sylw i'r man concriid. Dywedodd y Clerc y byddai arni angen cymorth wrth baratoi manylion.

9.2.3 Baw cŵn

Arwyddion CCTV / Camerâu

Cytunwyd na fyddai'r Cyngor yn mynd ar hyd y llwybr hwn oni fyddai'n hollol anochel.

Cytunwyd i bostio llythyr ynglŷn â baw cŵn at holl drigolion Maesyderi a Maes-y-Llan

GWEITHREDU: Anfon llythyron GAN: Y Clerc

Arwyddion i atal baw cŵn i gael eu rhoi mewn mannau penodedig.

GWEITHREDU: Cyngor H Davies a'r Cadeirydd.

## **10. Digwyddiadau**

**10.1 Gwasanaeth y Cofio**

Roedd cysylltiad wedi bod â'r Parch Alan Kent. Yn disgwyl ateb.

**11. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori na chynhwyswyd dan unrhyw bennawd arall)**

Deliwyd â gohebiaeth berthnasol yn yr agenda.

**12. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**

Diolchwyd i bawb a oedd wedi helpu gyda'r gwirfoddolwyr COVID-19 yn ardal Llangoedmor. Roedd y grŵp gwirfoddolwyr yn dal ei weithio yn yr ardal a bwriadant ddal i fynd nes daw gwybodaeth bellach.

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 7.09.20**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.55pm*